

Rhif: WG36971



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

Ymgynghoriad ar Lefel Arfaethedig yr Isafbris  
Uned ar gyfer Alcohol

Chwefror 2019

# CYNNWYS

Cyflwyniad

Cyd-destun polisi

Gwybodaeth am yr ymgynghoriad

Gwybodaeth am y crynodeb hwn o ymatebion i'r ymgynghoriad

Methodoleg

Crynodeb o ymatebion

Cwestiwn 1 a Chwestiwn 2

Cwestiwn 3

Cwestiwn 4

Cwestiwn 5

Camau nesaf

## Cyflwyniad

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (y Ddeddf) yn gweithredu penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddarparu sail ddeddfwriaethol ar gyfer mynd i'r afael â rhai o'r pryderon iechyd hirhoedlog a phenodol sy'n ymwneud ag effeithiau goryfed alcohol yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn darparu isafbris ar gyfer gwerthu a chyflenwi alcohol yng Nghymru gan unigolion penodol ac yn ei gwneud yn drosedd i alcohol gael ei werthu neu ei gyflenwi gan fanwerthwyr alcohol o safleoedd cymwys am lai na'r pris hwnnw.<sup>1</sup> Pan ddaw i rym, bydd yn cyflwyno cyfres o droseddau a chosbau yn ymwneud â'r system newydd ac mae'n darparu pwerau a dyletswyddau ychwanegol i awdurdodau lleol i'w galluogi i orfodi'r ddeddfwriaeth.

Mae'r Ddeddf yn darparu fformiwla ar gyfer cyfrifo'r isafbris perthnasol am alcohol trwy luosi cryfder canrannol yr alcohol, ei gyfaint a'r isafbris uned, gan ganiatáu i ni dargedu yn benodol gwerthu a chyflenwi yr alcohol cost isel a chryfder uchel hwnnw. Mae'r Ddeddf yn darparu y bydd yn isafbris uned at ddibenion y Ddeddf yn cael ei nodi mewn rheoliadau.

Cyn cyflwyno'r rheoliadau i'w hystyried gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad 12 wythnos (28 Medi tan 21 Rhagfyr 2018) ar ei lefel a ffefrir, sef isafbris uned o 50c – er mwyn casglu safbwyntiau unigolion, busnesau, cyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill. Fel rhan o'r ymgynghoriad, cyhoeddwyd rheoliadau drafft hefyd, ynghyd â Memorandwm Esboniadol drafft ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Derbyniwyd cyfanswm o 148 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r themâu a'r materion allweddol a godwyd yn yr ymatebion ysgrifenedig.

---

<sup>1</sup> Mae ystyr penodol i'r termau hyn at ddibenion y Ddeddf, fel y nodir yn adran 3 a 4 ohoni.

## Cyd-destun polisi

Mae lefel yr alcohol sy'n cael ei yfed yng Nghymru wedi arwain at (ac yn parhau i arwain at) amrywiaeth o niweidiau iechyd a chymdeithasol, yn enwedig i'r bobl hynny sy'n yfed yn ormodol. Cofrestrwyd 540 o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru yn 2017, sef cynnydd o 504 yn 2016 a 463 yn 2015. Yn 2017-18, roedd ychydig yn llai na 55,000 o dderbyniadau ysbyty y gellid eu priodoli i alcohol yng Nghymru.<sup>2</sup> Mae dadansoddiad Prifysgol Sheffield yn amcangyfrif bod alcohol yn costio £159 miliwn y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru.<sup>3</sup>

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir ers amser bod yn rhaid i ymyrraeth brisio fod yn elfen allweddol o unrhyw strategaeth gynhwysfawr i fynd i'r afael â chamddefnydd o alcohol, yn arbennig gan fod fforddiadwyedd alcohol wedi cynyddu'n sylweddol dros y ddau ddegawd diwethaf.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymgynghori ddwywaith ar yr egwyddor o gyflwyno isafbris ar gyfer alcohol yng Nghymru: yn 2014 yn rhan o'r Papur Gwyn Iechyd y Cyhoedd<sup>4</sup> ac yn 2015 ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) drafft.<sup>5</sup> Cyflwynwyd Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Hydref 2017, ac fe'i cymeradwywyd gan y Cynulliad ym mis Mehefin 2018. Derbyniodd y Bil Gydysniad Brenhinol ym mis Awst 2018.

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 yn adlewyrchu ymrwymiad cadarn i wella a diogelu ymhellach iechyd poblogaeth Cymru ac mae'n rhan o raglen waith ehangach a pharhaus i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Amcan yr isafbris yn y pen draw yw mynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, gan gynnwys derbyniadau ysbyty y gellir eu priodoli i alcohol a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru, trwy leihau faint o alcohol y mae yfwyr peryglus a niweidiol yn ei

---

<sup>2</sup> Iechyd Cyhoeddus Cymru (2018) *Data Mining Wales: The annual profile for substance misuse 2017-18*. GIG Cymru.

<sup>3</sup> Angus, C., Holmes, J., Brennan, A. a Meier, P. (2018) Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisiâu Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: Adroddiad terfynol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

<sup>4</sup> Ymgynghoriad 2014 ar Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd Gwranddo arnoch chi: Mae eich iechyd yn bwysig. <https://gov.wales/betaconsultations/healthsocialcare/white-paper/?skip=1&lang=cy>

<sup>5</sup> Ymgynghoriad 2015 ar y Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) Drafft. <https://gov.wales/betaconsultations/healthsocialcare/alcohol/?skip=1&lang=cy>

yfed. Yn benodol, ei nod yw diogelu iechyd yfwyr peryglus a niweidiol (gan gynnwys pobl ifanc) sy'n tueddu i yfed mwy o gynhyrchion cost isel a chynnwys alcohol uchel.

## Gwybodaeth am yr ymgynghoriad

Lansiwyd ymgynghoriad 12 wythnos Llywodraeth Cymru ar y lefel a ffeirir fel isafbris uned alcohol ar 28 Medi 2018, a daeth i ben ar 21 Rhagfyr 2018. Mae testun llawn yr ymgynghoriad ar gael yn:

<https://beta.llyw.cymru/gosod-yr-isafbris-am-alcohol>

Bwriad yr ymgynghoriad oedd casglu safbwyntiau rhanddeiliaid amrywiol er mwyn llywio lefel isafbris uned i'w bennu mewn rheoliadau, at ddibenion Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018. Nid oedd yr ymgynghoriad yn ymwneud â'r egwyddor o osod isafbris, gan fod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ddwywaith o'r blaen (yn 2014 a 2015) ar y mater hwn.

Ar sail dadansoddiad Prifysgol Sheffield o effeithiau isafbris uned a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2017 a mis Chwefror 2018<sup>6</sup> (ynghyd â'r sylfaen dystiolaeth ehangach a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol a'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil)<sup>7</sup> nodwyd y canlynol yn yr ymgynghoriad ar y lefel a ffeirir fel isafbris uned:

“Gan gymryd amrywiaeth o ffactorau i ystyriaeth, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai isafbris uned o 50c yn ymateb cymesur i fynd i'r afael â'r risgiau iechyd yn sgil yfed gormod o alcohol. Rydym o'r farn y bydd y lefel hon yn cynnig cydbwysedd rhesymol rhwng manteision iechyd y cyhoedd a chymdeithasol a ragwelir ac ymyrraeth yn y farchnad.”<sup>8</sup>

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru. Cafodd gwybodaeth am ddogfennau'r ymgynghoriad a sut i ymateb ei lledaenu a'i rhannu'n eang trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Hefyd, rhannwyd gwybodaeth ag Arweinwyr Cydraddoldeb y GIG,

---

<sup>6</sup> Cyhoeddwyd Adroddiad Interim ar effeithiau Isafbris Uned o 50c ym mis Tachwedd 2017. Cyhoeddwyd adroddiad llawn ar effeithiau lefelau isafbris uned gwahanol yn amrywio o 35c i 70c mewn cynyddrannau pum ceiniog ym mis Chwefror 2018. Mae'r adroddiadau hyn ar gael yma:

<https://gov.wales/statistics-and-research/research-likely-impact-public-attitudes-towards-minimum-unit-price-alcohol/?skip=1&lang=cy>

<sup>7</sup> Diweddarwyd y Memorandwm Esboniadol a'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil ym mis Mehefin 2018. Mae'r fersiwn diweddaraf ar gael yma: [https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-09/drasfft-rheoleiddiol\\_0.pdf](https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-09/drasfft-rheoleiddiol_0.pdf)

<sup>8</sup> Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru (Medi 2018) ar Isafbris Uned ar gyfer Alcohol. <https://beta.llyw.cymru/gosod-yr-isafbris-am-alcohol>

Rhwydweithiau Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru, y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, y Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant, Ymarferwyr Ymyriadau Byrion Alcohol ac Arweinwyr Alcohol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Hefyd, cafodd erthyglau eu cynnwys yng Nghylchlythyr y Prif Swyddog Meddygol a Chylchlythyr yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Hefyd, defnyddiwyd Fan Hysbysebu Digidol Symudol (Camddefnyddio Sylweddau) Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r ymgynghoriad. Defnyddiwyd hysbyseb digidol ar y fan, a gafodd ei gyrru i leoliadau gwahanol ledled Cymru ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2018 (nes i'r ymgynghoriad gau), gyda'r nod o rannu gwybodaeth am yr ymgynghoriad ac annog pobl i ymateb. Hefyd, cyfeiriwyd at yr ymgynghoriad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y cyfryngau cymdeithasol (er enghraifft, yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Alcohol ym mis Tachwedd) ac mewn digwyddiadau penodol (er enghraifft, mewn digwyddiad a drefnwyd gan Ymddiriedolaeth Afu Prydain ar 14 Tachwedd). Hefyd, mynychodd swyddogion Gynhadledd Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 8 a 9 Tachwedd gan rannu gwybodaeth â dros 120 o gynadleddwyr, a digwyddiad Yfed Doeth Heneiddio'n Dda er mwyn hyrwyddo'r ymgynghoriad.

Hefyd, anfonwyd e-byst at dros 100 o unigolion a sefydliadau, gan gynnwys Cadeiryddion Byrddau Cynllunio Ardal, Arweinwyr Rhanbarthol Byrddau Cynllunio Ardal, darparwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, sefydliadau defnyddwyr gwasanaethau, aelodau o Rwydwaith Diwydiant Alcohol Llywodraeth Cymru, aelodau o'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, Safonau Masnach, Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol, yn ogystal ag aelodau'r cyhoedd a gofrestrodd ar gyfer diweddariadau / a ymatebodd i'r ymgynghoriad blaenorol ar y Bil drafft.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd cyfarfod â rhanddeiliaid, darparwyr gwasanaethau, Byrddau Cynllunio Ardal, awdurdodau lleol, Penaethiaid Cymru Safonau Masnach, manwerthwyr a chynrychiolwyr o'r diwydiant alcohol. Cynhaliwyd tri chyfarfod ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau (yng Ngwent, Rhondda Cynon Taf a Chaerdydd a'r Fro) ac aeth Plant yng Nghymru ati i gynnal dau weithdy gyda phlant a phobl ifanc (un yn y Gogledd a'r llall yn y De). Mae rhestr o'r holl gyfarfodydd â rhanddeiliaid a chrynodeb o'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg yn sgil y broses ymgysylltu wedi'u cynnwys yn y crynodeb hwn.

## **Gwybodaeth am y crynodeb hwn o ymatebion i'r ymgynghoriad**

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd trwy'r canlynol:

- Yr ymgynghoriad ar-lein
- Copïau papur neu gopïau electronig amgen o'r ymgynghoriad

- Cyfarfodydd a digwyddiadau gyda rhanddeiliaid.


Mae'r dyfyniadau o ymatebion a dderbyniwyd yn Saesneg wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg.

## Ymatebion i'r ymgynghoriad

Derbyniwyd cyfanswm o **148 o ymatebion**.

- Derbyniwyd 118 ohonynt fel ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein, a derbyniwyd y 30 arall mewn ffurflenni ymgynghori wedi'u cwblhau â llaw neu eu teipio.
- Roedd 61 o ymatebwyr wedi dewis aros yn ddiennw.
- Nodwyd bod 47 o ymatebion wedi dod gan sefydliadau, a bod 101 yn ymatebion gan unigolion.
- Mae Ffigur 1 isod yn cynnwys manylion y sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

**Ffigur 1: Sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad**



# Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad – Methodoleg

Cwblhawyd dadansoddiad thematig o'r 148 o ymatebion, gan gategoreiddio'r safbwyntiau, y datganiadau a'r materion a godwyd gan ymatebwyr yn themâu cyffredinol, ar gyfer pob un o gwestiynau'r ymgynghoriad. Hefyd, nodwyd themâu y tu hwnt i gwmpas prif gwestiynau'r ymgynghoriad, a oedd yn ymwneud yn bennaf ag egwyddor gosod isafbris ar gyfer alcohol, yn hytrach na lefel benodol yr isafbris uned sydd i'w bennu mewn rheoliadau. Mae crynodeb wedi'i gynnwys hefyd o'r themâu yn ymwneud ag egwyddor isafbris a nodwyd yn yr ymatebion.

## Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad

Roedd dau gwestiwn allweddol yn sylfaen i'r ymgynghoriad ar y lefel a ffefrir ar gyfer isafbris uned:

**Cwestiwn 1: Rydym yn gwahodd sylwadau ar y rheoliadau drafft sydd wedi eu cynnwys yn atodiad un, sy'n nodi'r isafbris uned arfaethedig o 50c.**

**Cwestiwn 2: Os ydych yn credu y dylid nodi lefel wahanol o isafbris uned, rhowch eich rhesymau am hyn ynghyd ag unrhyw dystiolaeth a gwaith ymchwil i gefnogi eich sylwadau.**

Cafwyd sylwadau gan 95 o'r 148 o ymatebwyr ar yr isafbris uned o 50c a ffefrir gan Lywodraeth Cymru. Cyfeiriodd rhai yn benodol at y lefel wrth ateb Cwestiwn 1, tra bod eraill wedi rhoi sylwadau wrth ymateb i Gwestiwn 2 a Chwestiwn 5.

- O'r 95 o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau yn benodol ar lefel arfaethedig o 50c ar gyfer yr isafbris uned, roedd 43 yn sefydliadau a 52 yn unigolion.
- Roedd 58 (61%) o'r ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ar y pris arfaethedig o 50c yr uned yn cefnogi'r lefel a ffefrir gan Lywodraeth Cymru.
- Roedd 9 (9%) o'r ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ar y pris arfaethedig o 50c yr uned o'r farn fod angen i'r isafbris uned fod yn uwch na 50c yr uned.
- Dywedodd 13 (14%) o'r ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ar y pris arfaethedig o 50c yr uned y dylai'r isafbris uned fod yn is na 50c yr uned. Dywedodd pump ohonynt y dylai lefel yr isafbris uned fod yn sero.
- Cyflwynodd 15 (16%) o ymatebwyr sylwadau ar y pris ond ni wnaethant nodi a ydynt yn cefnogi'r pris arfaethedig o 50c yr uned ai peidio.
- Dywedodd 55 o'r 148 o ymatebwyr na ddylid cyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol.



- Dywedodd nifer fach o ymatebwyr na fyddai'n briodol iddynt wneud sylw penodol ar lefel yr isafbris uned (neu nad oedd ganddynt farn ar y mater). Roedd hyn yn cynnwys nifer fach o sefydliadau Trydydd Sector a'r rhai sy'n cynrychioli manwerthwyr / y diwydiant alcohol.

## Cwestiynau 1 a 2:

### Themâu allweddol yn deillio o ymatebion yn cefnogi isafbris uned o 50c

Wrth roi sylwadau ar y lefel a ffeirir fel isafbris uned, daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg gan y rhai sy'n cefnogi isafbris uned o 50c. Cyfeiriwyd yn benodol at y gwaith ymchwil sydd wedi'i gwblhau gan Brifysgol Sheffield a'r **enillion iechyd a ragwelir** wrth gyflwyno isafbris uned o 50c. Hefyd, nodwyd bod angen sicrhau cydbwysedd a chymesuredd wrth ymyrryd yn y farchnad. Ymysg yr ymatebion, nodwyd bod isafbris uned o 50c “yn bris teg” / “yn fan cychwyn synhwyrol” / “yn fan cychwyn da” / “yn bris rhesymol i'w osod” – ac “nid oes unrhyw resymeg gyffredinol i'r cynigion”.

#### Yr enillion iechyd a ragwelir a'r angen am gymesuredd:

“...Credwn fod y ddadl o blaid cyflwyno isafbris uned yn hynod gryf a bod lefel gychwynol o 50c yn sicrhau cydbwysedd cywir trwy sbarduno gwelliannau ym maes iechyd y cyhoedd ac ystyried effeithiau ar yfwyr cymedrol ac ymyrryd yn y farchnad.”  
**Penaethiaid Cymru Safonau Masnach (#122)**

“...Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn croesawu ac yn cefnogi'r syniad o gyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol. Mae'r dystiolaeth yn dangos yn gryf y byddai cyflwyno isafbris uned yng Nghymru yn lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae'r isafbris uned yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, a'r nod yw effeithio ar yr yfwyr mwyaf peryglus a niweidiol yn y boblogaeth. Mae'r gwaith modelu helaeth sydd wedi'i gwblhau yn dangos y byddai isafbris uned o 50c yn arwain at welliannau sylweddol ym meysydd iechyd a llesiant.” **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (#130)**

“...Mae Bwrdd Cynllunio Ardal Gwent yn cytuno â'r isafbris uned arfaethedig o 50c er mwyn sicrhau'r manteision effaith ac iechyd sydd wedi'u modelu gan Brifysgol Sheffield. Mae'r Bwrdd yn cefnogi'r ddeddfwriaeth yn llawn fel rhan o fentrau amrywiol i helpu i leihau effeithiau yfed niweidiol a pheryglus.” **Bwrdd Cynllunio Ardal Gwent (#58)**

“...Mae'r gwaith modelu a gwblhawyd gan Brifysgol Sheffield yn sylfaen i ddadl gref o blaid gosod isafbris uned o 50c ar gyfer alcohol. Ar ôl ystyried canfyddiadau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer pennu'r isafbris, rydym yn cytuno â'r casgliad bod lefel o 50c yr uned yn ymateb cymesur i fynd i'r afael â'r risgiau iechyd yn sgil yfed gormod o alcohol. Yn ogystal, rydym yn cytuno y byddai'r lefel hon yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng y

manteision cymdeithasol ac iechyd y cyhoedd a ragwelir, ac ymyrraeth.” **Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir Bro Morgannwg (#111)**

“...mae Prifysgol Sheffield wedi dangos bod isafbris uned yn arwain at y manteision iechyd mwyaf ar gyfer yfwr niweidiol yn y rhannau tlotaf o gymdeithas. Yn ei dro, byddai hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol at leihau anghydraddoldebau iechyd. O ganlyniad, mae Gofal Cancer Tenovus yn cefnogi'r isafbris uned arfaethedig o 50c ac yn credu y bydd y polisi hwn yn arwain at fanteision clir, nid yn unig o ran atal mathau penodol o ganser, ond hefyd trwy leihau'r straen ar rannau eraill o'r GIG yng Nghymru.” **Gofal Cancer Tenovus (#107)**

Thema allweddol arall a ddaeth i'r amlwg oedd pwysigrwydd **cysondeb a chydraddoldeb â lefel yr isafbris uned yn yr Alban**. Pwysleisiwyd hyn mewn ymatebion gan fanwerthwyr, rhwydweithiau sy'n cynrychioli manwerthwyr a'r diwydiant alcohol, sefydliadau Trydydd Sector, rhanddeiliaid iechyd y cyhoedd, byrddau iechyd, awdurdodau lleol a Byrddau Cynllunio Ardal.

#### **Yn cefnogi cysondeb a chydraddoldeb â'r Alban:**

“...dylai'r gyfradd yng Nghymru fod yn gyson â'r gyfradd yn yr Alban. Byddai hynny'n atal cystadleuaeth niweidiol rhwng manwerthwyr ar ddwy ochr y ffin. Hefyd, byddai'n gosod fframwaith clir ar gyfer siopwyr a defnyddwyr.” **Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd (#118)**

“...Bydd cynnig Llywodraeth Cymru i osod isafbris uned o 50c yn ein galluogi i gadarnhau a rhoi'r camau gweithredu gofynnol ar waith yn ddi-oed. Byddai unrhyw isafbris arall yn gofyn am amser ac adnoddau i gwblhau dadansoddiad ychwanegol, gan arafu'r camau gweithredu o bosibl...efallai nad yw Cymru a'r Alban yn rhannu ffin, ond mae yna fanteision i sicrhau cymaint o gysondeb â phosibl ym mhob un o wledydd y DU lle mae isafbris uned ar waith.” **Y Cwmni Cydweithredol (#59)**

“...Yn ogystal â mynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol ac anghydraddoldebau iechyd, bydd y pris hwn yn helpu i ddarparu cysondeb ar gyfer manwerthwyr sy'n gweithredu yng Nghymru a'r Alban. Mae'n targedu yfwr peryglus a niweidiol yn hytrach nag yfwr mwy cymedrol.” **Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd (#108)**

“...At ei gilydd, mae Cyfarwyddwyr Grŵp Iechyd y Cyhoedd yn credu bod yr effaith a ragwelir ar iechyd ac anghydraddoldebau iechyd yn sgil isafbris uned o 50c yn dderbyniol ...Hefyd, mae'n briodol bod Cymru yn gweithredu'n unol â rhannau eraill o'r DU.” **Cyfarwyddwyr Grŵp Iechyd y Cyhoedd (#135)**

“...mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu monitro effaith polisi isafbris uned o 50c yn yr

Alban, felly byddai'n synhwyrol gosod yr un pris. Byddai pris gwahanol ledled gwledydd y DU yn niweidiol iawn ac yn gostus i'r busnes." **WSTA (#43)**

Er bod ymatebion yn cefnogi isafbris uned o 50c, roeddent hefyd yn nodi canlyniadau anfwriadol posibl yn deillio o isafbris ar gyfer alcohol, **a'r** angen am waith monitro a gwerthuso cyson. Yn benodol, gofynnodd rhai ymatebwyr am sicrhau bod y cynllun gwerthuso ar waith cyn i'r isafbris uned ddod i rym, a'i fod yn cynnwys y dangosyddion allweddol a ddefnyddir i asesu'r polisi (pwynt a wneir gan y rhai ni wneath sylw ar lefel yr isafbris / yn erbyn MUP).

Mae canlyniadau anfwriadol posibl isafbris uned a nodir mewn ymatebion yn cael rhagor o sylw yn yr adran ar egwyddor isafbris.

### **Yn cefnogi isafbris uned o 50c – ond yn mynegi pryder ynglŷn â chanlyniadau anfwriadol ac effeithiau negyddol posibl...**

"Gallai pris o fwy na 50c gosbi yfwyr cymedrol ymhellach ac arwain at ganlyniadau anfwriadol eraill. Er enghraifft: A) Po fwyaf y gwahaniaeth rhwng pris alcohol yng Nghymru a Lloegr, y mwyaf tebygol yw masnachu trawsffiniol, neu hyd yn oed anghyfreithlon. B) Mae llawer o fanwerthwyr wedi mynegi pryderon am weithredu strwythurau prisio gwahanol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Gallai'r costau ychwanegol gael eu trosglwyddo i ddefnyddwyr." **Pernod Ricard UK (#125)**

### **Yn cefnogi gwaith monitro a gwerthuso cyson er mwyn asesu canlyniadau anfwriadol posibl...**

"...Bydd angen monitro effaith y ddeddfwriaeth hon yn ofalus o safbwynt yr effaith ar iechyd y boblogaeth a'r galw cynyddol posibl am wasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau iechyd a gofal ehangach...dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu fframwaith monitro clir i asesu effeithiau ehangach isafbris uned ar y boblogaeth gyfan yn ogystal â'r rhai sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan gamddefnyddio alcohol." **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (#130)**

"...Bydd angen monitro effaith y ddeddfwriaeth hon yn ofalus o safbwynt yr effaith ar iechyd y boblogaeth a'r galw cynyddol posibl am wasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau ehangach." **Cyfarwyddwyr Grŵp Iechyd y Cyhoedd (#135)**

"...Yn gyffredinol, mae Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf yn cefnogi'r isafbris uned o 50c. Fodd bynnag, hoffem nodi bod angen monitro effaith y polisi prisio hwn yn ofalus ar yfwyr niweidiol er mwyn lliniaru caledi ariannol ychwanegol a sicrhau bod cymorth priodol ar gael ar gyfer yr aelodau hynod agored i niwed hyn o'n cymunedau."

## **Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf (#144)**

Dywedodd **Tîm Iechyd y Cyhoedd Gwent Aneurin Bevan (#109)** fod angen mynd ati'n gyson i rannu prosesau monitro effeithiau isafbris uned ac arferion da ledled Cymru.

"...dylai Cymru osod yr un isafbris [â'r Alban] ond sicrhau bod yr effaith sy'n deillio o hyn yn cael ei monitro'n ofalus." **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (#100)**

"...Rydym yn credu ei bod yn briodol i Gymru osod yr un isafbris, ond sicrhau bod yr effaith sy'n deillio o hyn yn cael ei monitro'n ofalus, ar gyfer y boblogaeth ac ar gyfer y gwasanaethau a all wynebu mwy o alw yn sgil cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon." **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (#113)**

"Er y bydd isafbris uned yn cael effaith gadarnhaol ar lefel poblogaeth, mewn ardaloedd Byrddau Iechyd mae gennym gyfrifoldeb i ystyried anghenion unigolion a'r gymuned yn ehangach. Mae dibyniaeth ar alcohol yn fater cymhleth sy'n gysylltiedig â phroblemau iechyd eraill yn aml, yn enwedig problemau iechyd meddwl ac amgylchiadau bywyd anodd...Rydym yn gwybod y bydd isafbris uned yn cael effaith anghymesur ar yfwyr o aelwydydd incwm isel, yfwyr niweidiol ac yfwyr peryglus, yn enwedig ymysg y grwpiau mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau...Er gwaethaf y manteision a ragwelir, ni allwn dybio y bydd cynyddu costau yn lleihau lefelau defnydd alcohol bob tro, ac mae angen cydnabod y perygl y bydd rhai unigolion yn newid i sylweddau eraill neu'n gwario cyfran fwy o'u hincwm ar alcohol, ar draul prynu eitemau hanfodol fel bwyd. Mae angen i ni fonitro gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau cymorth ehangach, gan ariannu capasiti ychwanegol os oes angen." **Cyfarwyddwyr Grŵp Iechyd y Cyhoedd (#135)**. Cafwyd sylwadau tebyg gan **Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen** hefyd (**#100**).

"Carem awgrymu comisiynu adolygiad o effaith y ddeddfwriaeth ar bobl â nodweddion penodol, e.e. plant a phobl ifanc, teuluoedd, menywod beichiog, ac hefyd archwilio'r berthynas rhwng alcohol a thrais domestig. Y gobaith yw y byddai hyn yn canolbwyntio'r adolygiad ar y grwpiau mwyaf agored i niwed. Byddai hyn i gyd yn dod o dan 'Y posibilrwydd o gomisiynu gwaith arall.' **Eglwys Bresbyteraidd Cymru (#148)**

## **Themâu allweddol yn deillio o ymatebion yn cefnogi isafbris uned uwch**

Ymysg yr ymatebion yn cefnogi isafbris uned uwch, y pwnc allweddol a godwyd oedd y ffaith fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymgynghori ar isafbris uned o 50c yn 2015, felly dylai'r lefel a ffefrir fod yn uwch erbyn hyn. Hefyd, cyfeiriodd rhai ymatebion at fanteision isafbris uned uwch ar gyfer iechyd y cyhoedd, a'r gostyngiad pellach a ragwelir yn nifer y marwolaethau a derbyniadau ysbyty sy'n gysylltiedig ag alcohol trwy osod lefel yr isafbris uned yn uwch na 50c. Hefyd, nododd nifer o ymatebwyr fod angen ystyried chwyddiant, gan

fod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar isafbris fel rhan o Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd yn 2014 a'r Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) drafft yn 2015. Hefyd, awgrymwyd y gallai isafbris uned uwch gael mwy o effaith ar newid diwylliannol ac ar leihau defnydd ymysg plant a phobl ifanc.

### **Dylai lefel yr isafbris uned fod yn uwch na 50c**

“...Dylai'r isafbris uned fod yn fwy na 50 ceiniog er mwyn ystyried y cynnydd mewn chwyddiant ers gwaith modelu Prifysgol Sheffield, Adroddiad y Panel Cyngori ar Gamddefnyddio Sylweddau a phenderfyniad Llywodraeth Cymru i gyflwyno isafbris uned. Hefyd, mae pryder cyhoeddus am ddefnydd alcohol gormodol wedi cynyddu'n gyson ers hynny, sy'n golygu bod angen camau gweithredu dewrach a fydd yn cael eu derbyn gan y mwyafrif o ddinasyddion...Y prif reswm yw'r ffaith y dylai'r isafbris uned cychwynnol sy'n cael ei osod adlewyrchu'r cynnydd mewn prisiau oherwydd chwyddiant ers cwblhau'r gwaith modelu a'r penderfyniad i gyflwyno isafbris uned o 50c. Hefyd, o ystyried bod y Ddeddf yn darparu ar gyfer cynnydd ar sail chwyddiant yn y dyfodol, mae'n ymddangos yn afresymegol peidio â gosod pris sydd wedi'i addasu ar sail chwyddiant yn y lle cyntaf. Fel y nodir gan adroddiad diweddaraf Prifysgol Sheffield: 'yn gyffredinol, mae effeithiau polisi yn fwy sylweddol ar gyfer isafbrisiau uwch.' (t.11). Mae'r adroddiad yn archwilio effeithiau lefelau prisio gwahanol ac er bod 'lefelau isafbris uned uwch yn cael mwy o effaith ar yfwyr cymedrol', 'mae trothwyon isafbris uned uwch yn arwain at fwy o ostyngiad cyffredinol mewn lefelau defnydd, ac mae'r effaith fwyaf yn sgil pob cynnydd yn y trothwy i'w gweld ymysg y rhai sy'n yfed mwyaf' (t.37). Dyma effaith gadarn hynod ddymunol, does bosib?” **Ymateb gan unigolyn (#26)**

“...Hoffem argymhell isafbris uned i Gymru o 60c o leiaf. Egwyddor isafbris uned yw cyfrannu at leihau defnydd o'r diodydd rhataf a chryfaf sy'n cael eu ffafrio yn bennaf gan yfwyr niweidiol. Fodd bynnag, byddai gosod yr isafbris uned ar y lefel uwch hon yn cryfhau'r neges bod Llywodraeth Cymru yn benderfynol o atal niwed sy'n deillio o alcohol, a mynd i'r afael ag effaith uniongyrchol a hirdymor y niwed hwn, waeth beth yw lefelau yfed presennol unigolion...Pan gyflwynir isafbris uned yn 2019, bydd chwe blynedd wedi mynd heibio ers i Lywodraeth Cymru awgrymu 50c yn y lle cyntaf. Ers hynny, mae chwyddiant wedi lleihau ystod y diodydd a werthir o dan y pris hwn fesul uned, a bydd hyn yn parhau ar ôl cyflwyno'r isafbris. Bydd gosod isafbris uned o 60c neu fwy yn helpu i gadw'r effaith hon dros gyfnod hirach, cyn yr adolygiad mewnol cyntaf yn 2021.” **Quaker Action on Alcohol and Drugs (#131)**

### **Themâu allweddol yn deillio o ymatebion yn cefnogi isafbris uned is**

Ymysg yr ymatebion yn cefnogi isafbris uned is, y pwnc allweddol a godwyd oedd effaith bosibl isafbris uned ar yfwyr cymedrol, a phryderon ynglŷn ag effeithiau ar fanwerthwyr, economi Cymru a thwristiaeth. Roedd rhai ymatebion yn cynnwys galwadau am lefel isafbris

uned o sero. Hefyd, yn ôl un ymatebydd, os oes isafbris uned yn cael ei gyflwyno yng Nghymru, dylai'r lefel fod yn is na'r hyn a bennir yn yr Alban fel bod modd "ystyried meincnod gwahanol" (gweler isod).

### **Dylai lefel yr isafbris uned fod yn is na 50c**

"...Am y ddwy flynedd gyntaf credwn y dylid gosod isafbris uned o sero nes bod gwybodaeth ar gael am effeithiau – uniongyrchol ac anuniongyrchol (canlyniadau anfwriadol) – cynllun isafbris uned yr Alban. Mae tueddiadau presennol yn awgrymu bod defnyddwyr yn prynu llai o gynhyrchion cryfder isel a mwy o gynhyrchion â lefelau %ABV uwch. Hefyd, mae ffigurau diweddaraf gan Arolwg Iechyd y GIG ar gyfer Lloegr yn dangos bod nifer y bobl sy'n yfed dros 14 uned yr wythnos wedi disgyn ers 2011. Hefyd, mae 60% o'r boblogaeth yn yfed ar raddfa risg isel. Mae hyn yn awgrymu y byddai cymorth a dargedir ar gyfer yfwyr risg uwch yn fwy priodol." **Cymdeithas Genedlaethol Cynhyrchwyr Seidr (#146)**

### **Themâu allweddol yn deillio o'r ymatebion nad oeddent yn cefnogi isafbris uned**

Ymhlith yr ymatebion nad oeddent yn cefnogi isafbris uned o 50c (neu isafbris yn gyffredinol), daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg. Yn benodol, codwyd pryderon ynghylch effeithiau isafbris uned o 50c ar aelwydydd sy'n byw mewn tlodi. Yn benodol, amlygodd nifer o ymatebion effeithiau cyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol ar gyllidebau aelwydydd. Codwyd pryderon penodol y bydd cyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol yn arwain at ganlyniadau nas bwriadwyd ar gyfer teuluoedd â phlant, os yw rhieni'n dewis parhau yfed ac yn gorfod talu mwy am alcohol, ac felly y gallai fod llai o arian ar gyfer bwyd a thanwydd a chynnydd posibl mewn dyled. Roedd y cysyniad o gael eich cosbi am fod yn yfwr cymedrol yn thema arbennig o gryf a ddaeth i'r amlwg, gyda nifer o ymatebwyr yn crybwyll bod isafbris uned yn enghraifft o'r "wladwriaeth nani". Roedd y rhai nad oeddent yn cefnogi isafbris uned o 50c yn cwestiynu sail resymegol y polisi a'r sylfaen dystiolaeth ar ddefnyddio pris fel ysgogiad i leihau yfed peryglus a niweidiol a chododd bryderon penodol ynghylch a fyddai yfwyr dibynnol yn yfed llai yn dilyn cynnydd ym mhris alcohol.

### **Ni ddylai fod isafbris uned ar gyfer alcohol**

"...Mae isafbris yn mynd i gael effaith niweidiol ar y bobl dlotaf a mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, heb gael effaith wirioneddol ar ddefnydd alcohol ymysg y rhan fwyaf o'r boblogaeth. Yr unig grŵp oedran lle mae defnydd alcohol ac yfed peryglus yn cynyddu yw'r grŵp dros 50 oed, sy'n llai tebygol o gael eu dylanwadu gan brisiau uwch yn gyffredinol." **Ymateb unigol (#77)**

“...Cywilydd arnoch chi. Unwaith eto, ni fydd unrhyw effaith ar bobl gyfoethog gan na fydd eu hymddygiad/arferion yn newid – fe allan nhw fforddio unrhyw gynnydd. Mae pobl fel fi a’ m teulu sy’n gweithio’n galed yn methu fforddio prynu diodydd mewn tafarn, ond rydym yn mwynhau diod yn y tŷ. Unwaith eto, byddwn ni’n cael ein hymyleiddio a’n cosbi gan reolaeth llywodraeth ormesol.” **Ymateb unigol (#42)**

## **Egwyddor isafbris ar gyfer alcohol**

Er bod yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar lefel yr isafbris uned a ffefrir – gwnaeth mwyafrif yr ymatebion sylw hefyd at yr egwyddor o isafbris ar gyfer alcohol. Yn benodol, tynnodd yr ymatebion sylw at ganlyniadau anfwriadol posibl cyflwyno isafbris ar gyfer alcohol ac roedd cefnogaeth gref ar gyfer monitro a gwerthuso parhaus. Tynnodd ymatebion sylw penodol at effeithiau posibl a chanlyniadau anfwriadol i grwpiau agored i niwed, gan gynnwys yfwyr dibynnol, pobl sy’n ddigartref, pobl sy’n byw mewn tloedi ac aelwydydd incwm isel; effeithiau posibl ar drosedd – gan gynnwys dwyn o siopau a gwerthu alcohol anghyfreithlon; cynnydd posibl yn nifer y bobl sy’n newid o alcohol i sylweddau eraill; effeithiau ar siopa trawsffiniol; a’r posibilrwydd o effeithiau negyddol ar fanwerthwyr ac economi Cymru.

Roedd y prif themâu a deilliodd o’r ymatebion a oedd yn trafod yr egwyddor o isafbris yn cynnwys:

- **Cefnogaeth i’r egwyddor o isafbris ar gyfer alcohol fel rhan o ddull cyffredinol o leihau niwed:** Gwnaeth yr ymatebion sylwadau ar y rôl a’r cyfraniad y gall isafbris uned ei wneud o ran helpu i leihau niwed sy’n gysylltiedig ag alcohol. Dywedodd Plant yng Nghymru (#119): Mae Plant yng Nghymru yn barod iawn i gefnogi ymyrraeth er mwyn rheoli cost alcohol mewn ymgais i amddiffyn pobl yn well, gan wella canlyniadau iechyd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ar gyfer plant, pobl ifanc a’u teuluoedd. Ar yr un pryd roedd cydnabyddiaeth bod yn rhaid i isafbris gyd-fynd ag ymyriadau eraill i leihau niwed sy’n gysylltiedig ag alcohol.
- **Cynnydd yn y galw am wasanaethau:** Gwnaeth nifer sylweddol o ymatebion sylwadau ar y cynnydd posibl yn nifer y bobl sy’n gofyn am gymorth gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau. Mae angen adnoddau digonol ar gyfer galw am y gwasanaethau hyn. Nododd un ymateb, er enghraifft: “...gall effaith yr isafbris uned annog rhai pobl i geisio rhoi’r gorau i yfed alcohol, gan gynyddu’r galw am wasanaethau rhoi’r gorau i alcohol yn y tymor byr. Os nad yw hyn yn cael ei ariannu’n briodol, mae yna berygl y bydd pobl yn ceisio rhoi’r gorau i yfed alcohol heb gymorth priodol, gan arwain o bosibl at lai o lwyddiant a chostau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau iechyd a derbyniadau brys gofal eilaidd heb eu cynllunio. Hoffem weld ymgyrch ymwybyddiaeth

cyn cyflwyno'r isafbris uned, a chyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau alcohol am gyfnod o 12 mis o leiaf." (Cyngor Trydydd Sector Caerdydd #123)

- **Effaith ar yfwyr dibynnol:** I nifer o ymatebwyr, nid yw isafbris uned yn debygol o gael effaith ar yfwyr dibynnol neu alcoholigion ac mae'n annhebygol o gael effaith ar fynd i'r afael â'r materion go iawn sy'n gysylltiedig ag alcoholiaeth.
- **Risg bosibl i bobl newid i sylweddau eraill:** Mynegodd nifer o ymatebion bryder ynghylch y perygl posibl y gallai pobl newid o alcohol i sylweddau eraill wrth i bris alcohol gynyddu o dan drefn isafbris, yn enwedig pan ddefnyddir alcohol i hunan-feddyginiaethu mewn perthynas â materion iechyd meddwl. Nodwyd y gallai hyn gynyddu gofynion ar wasanaethau gorfodi'r gyfraith yn ei dro ac i wasanaethau camddefnyddio sylweddau eraill.
- **Effeithiau ar blant a theuluoedd sy'n byw mewn tloidi:** Un o'r prif feirniadaethau o ran isafbris oedd yr effeithiau ar deuluoedd sy'n byw mewn tloidi a'r effeithiau anghymesur posibl ar gyllidebau aelwydydd. Yn gysylltiedig â hyn, mae effeithiau posibl ar blant a phobl ifanc sy'n byw yn y teuluoedd hynny os yw rhieni'n parhau i yfed yr un faint o alcohol ond am bris uwch. Er bod rhai ymatebion yn cydnabod y cynnydd mewn manteision iechyd a'r potensial i isafbris uned leihau anghydraddoldebau iechyd, roedd ymatebion unigol yn tueddu i ganolbwyntio ar y ffordd yr oedd isafbris yn "ddull o gosbi" neu'n "dreth ar y tlawd" a oedd â'r nod o roi'r tlotaf mewn cymdeithas dan anfantais a chael effaith anghymesur ar aelwydydd incwm is; yn cael effaith negyddol sylweddol ar gostau byw ar aelwydydd incwm isel; yn cael effaith anghymesur ar golledion lles defnyddwyr i'r tlotaf; a bydd yn lleihau'r adnoddau teuluol sydd ar gael ar gyfer hanfodion (megis bwyd, dillad, gwresogi) a phethau heblaw hanfodion (gan gynnwys hamdden a bwyta allan).
- **Camargraff mai treth yw isafbris:** Roedd camargraff ymhlith rhai ymatebion y byddai'r refeniw a fyddai'n cael ei godi yn sgil isafbris uned yn mynd i Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU. Dywedodd rhai ymatebwyr y dylid buddsoddi'r refeniw ychwanegol hwn mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, addysg ac atal. Galwyd am ragor o wybodaeth hefyd ynghylch i ble y byddai'r arian a fyddai'n cael ei godi yn sgil isafbris yn mynd.
- **Effeithiau trawsffiniol:** Mynegwyd pryder ymhlith rhai ymatebion ynghylch effeithiau isafbris uned ar siopa trawsffiniol ac i ba raddau y byddai hyn yn tanseilio effeithiau iechyd cyhoeddus y ddeddfwriaeth ac yn cael effaith negyddol ar fanwerthwyr yng Nghymru, yn arbennig mewn ardaloedd yn y Gogledd-ddwyrain a'r rhai sydd ar y ffin â Lloegr. Gallai isafbris uned annog cwsmeriaid i brynu eu halcohol ar draws y ffin yn Lloegr a allai wedyn effeithio'n uniongyrchol ar fusnesau Cymru. Dywedodd rhai ymatebion y gallai'r effeithiau trawsffiniol hyn fod yn uwch na'r rhai a welwyd yn yr Alban.



- **Effeithiau ar fanwerthwyr:** Nododd nifer o ymatebion faterion penodol sy'n debygol o effeithio ar fanwerthwyr. Roedd hyn yn cynnwys canlyniadau anfwriadol ac ystyriaethau busnes. Dywedodd Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd (NFRN) (#118) y bydd "isafbris uned yn sicrhau tegwch ar gyfer manwerthwyr annibynnol. Mae presenoldeb cynyddol archfarchnadoedd cadwyn mewn ardaloedd lleol wedi arwain at ddirywiad yn y sector manwerthu, ac mae siopau annibynnol wedi gorfod cystadlu â phrisiau rhad na allant eu cynnig". Fodd bynnag, roedd rhai aelodau o'r NFRN yn poeni hefyd y bydd isafbris uned yn "golygu bod pobl yn troi cefn ar siopau cyfleustra yng Nghymru" yn enwedig o ystyried hyd y ffin rhwng Cymru a Lloegr ac roeddent yn pryderu hefyd ynghylch sut y gallai gostyngiad mewn gwerthiant a'r anallu i werthu gallai alcohol am brisiau gostyngol yn agos i'r dyddiad neu gynhyrchion wedi'u difrodi fygwth goroesiad y busnesau lleiaf. Mynegwyd pryderon gan rai aelodau hefyd y gallai manwerthwyr mwy a manwerthwyr ar-lein ddod o hyd i ffyrdd o osgoi rheoliadau isafbris uned (e.e. NFRN #118). Gwnaeth eraill sylwadau am y risg o ymddygiad gwrthgymdeithasol: dwyn o siopau a cham-drin geiriol a chorfforol yn erbyn staff manwerthu a hefyd yr angen am sancsiynau yn erbyn y rhai sy'n gwerthu alcohol anghyfreithlon.
- **Rhesymeg dros gyflwyno isafbris uned:** Roedd rhai ymatebion yn amheus o'r angen a'r rhesymeg dros gyflwyno isafbris uned o ystyried bod lefelau yfed alcohol yn gostwng eisoes a bod gostyngiad mewn trais sy'n gysylltiedig ag alcohol a derbyniadau ysbyty sy'n gysylltiedig ag alcohol hefyd.
- **Dewisiadau heblaw isafbris uned:** Awgrymodd rhai ymatebion (yn enwedig manwerthwyr a'r diwydiant alcohol) ddewisiadau eraill yn lle cyflwyno isafbris uned o 50c ac roeddent yn cynnwys ffocws penodol ar gyflwyno "bandiau pris" ar gyfer gwahanol fathau o ddioddydd, yn fwy tebyg i'r isafswm prisiau a gyflwynwyd yng Nghanada. Er enghraifft - gofynnodd Molson Coors UK and Ireland (#129) i Lywodraeth Cymru ystyried mabwysiadu bandiau isafbris uned sy'n targedu alcohol cryf - yn hytrach na phris unffurf ar gyfer pob math o ddioddydd, ac maen nhw'n credu ei fod yn bolisi sy'n targedu i fwy o raddau ac y bydd yn cyflawni canlyniad polisi gwell.

### Canlyniadau Anfwriadol Posibl

Roedd ymateb i'r ymgynghoriad gan Cymorth (#139) yn canolbwyntio'n benodol ar y canlyniadau anfwriadol posibl o gyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol a sut mae angen eu "rheoli'n ofalus". Mae ymateb Cymorth yn nodi bod aelodau ehangach Cymorth wedi mynegi pryderon ynghylch y posibilrwydd o ôl-ddyledion rhent a throi allan wrth i bobl sy'n ddibynnol ar alcohol flaenoriaethu arian ar gyfer alcohol yn hytrach na hanfodion eraill megis rhent; y risg o newid i sylweddau eraill (gyda'r ymateb yn amlygu eu cefnogaeth i'r ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar y mater hwn); pryderon ynghylch smyglo trawsffiniol a cham-fanteisio, ac yn benodol y risg y gall gweithgarwch llinellau

cyffuriau drosi'n hawdd i weithgarwch tebyg yn ymwneud ag alcohol unwaith y bydd isafbris uned yn cael ei gyflwyno, gyda'r potensial i rai pobl agored i niwed gael eu hecsbloetio gan gangiau troseddol sy'n delio ar draws y ffin; y risg o ddiddyfnu anfwriadol a chynnydd mewn atgyfeiriadau ymhlith y rhai sy'n ddibynnol ar alcohol; a phryderon y bydd isafbris uned yn effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau agored i niwed yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) pobl sy'n ddigartref, neu sydd mewn cartref agored i niwed, pobl sy'n cysgu ar y stryd, pobl ag anabledau dysgu, goroeswyr cam-drin yn y cartref, a mwy.

Dywed Cymorth y canlynol yn eu hymateb: "Mae angen ymdrechu'n galed iawn ar y cyd i sicrhau nad ydym yn anghofio am y grwpiau o bobl agored i niwed sydd ar ymylon cymdeithas, yn ynysig ac sy'n wynebu anfantais strwythurol. Hefyd, mae'n rhaid monitro'r problemau sy'n eu hwynebu nhw yn fwy na grwpiau eraill ar gyfer effeithiau annisgwyl."

#### **Cymorth (#139)**

**CBS Torfaen (#100):** Mae gan yfwyr niweidiol anghenion cymhleth yn aml ac felly bydd angen cymorth ychwanegol arnynt i newid eu hymddygiad; mae diffyg dealltwriaeth ynghylch sut mae yfwyr incwm isel yn profi mwy o niwed; mae newid ymddygiad yn gymhleth, ond hyd yn oed yn fwy felly pan fydd dibyniaeth yn rhan o'r darlun; a bod perygl o fwy o niwed ymhlith yfwyr niweidiol incwm isel o ganlyniad i isafbris uned. Galwyd am adnoddau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau lleol, a allai weld cynnydd yn y galw yn dilyn cyflwyno isafbris uned.

**Gwnaed pwyntiau tebyg gan Dîm Iechyd Cyhoeddus Aneurin Bevan Gwent (ABGPHT – #109), Grŵp Alcohol Bwrdd Cynllunio Ardal Caerdydd a'r Fro (#112), Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (#113) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (#130).**

**Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (#123):** "Mae'n bosibl bod rhieni yn llwyddo i dalu eu biliau a darparu bwyd, dillad a gwres ar gyfer eu plentyn neu eu plant ar hyn o bryd, heb fod neb yn ymwybodol o ddibyniaeth ar alcohol. Gallai cynyddu'r gost arwain at rieni yn gorfod dewis rhwng alcohol a diwallu anghenion sylfaenol plant. Gallai hyn gael effaith niweidiol, er enghraifft ar gynnydd academaidd plant, gan effeithio arnynt ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, neu fe allai arwain at gynnydd yn nifer yr achosion o esgeuluso diogelu plant. Er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu parchu, mae angen darparu cyllid a chymorth ychwanegol ar gyfer addysg, gwasanaethau cwnsela ysgolion, diogelu, ac ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio gyda'r teulu cyfan i geisio mynd i'r afael mewn ffordd holistaidd ag unrhyw broblemau a lleihau'r effaith a'r profiadau niweidiol yn ystod plentynod a allai ddeillio o'r ddeddfwriaeth...Os nad oes camau cyffelyb yn cael eu rhoi ar waith i leihau defnydd gormodol o alcohol a sylweddau niweidiol eraill, gall mwy o bobl newid o ddefnyddio alcohol i ddefnyddio sylweddau eraill sy'n rhatach ac sydd ar gael i'w prynu, gan gynnwys canabinoid synthetig, mda a chysglynau. Fel arall, gallan nhw benderfynu ei bod yn rhatach gwneud eu sylweddau eu hunain, heb eu rheoleiddio, o gryfder anhysbys, sydd â pheryglon iechyd cysylltiedig. Gallai hyn gynyddu'r galw ar

brosesau gorfodi'r gyfraith ac ar wasanaethau camddefnyddio sylweddau eraill.”

## Cynlluniau ar gyfer gweithredu

Er bod yr ymgynghoriad yn ymwneud â lefel y isafbris uned i'w bennu yn y rheoliadau, gwnaeth nifer o randdeiliaid sylwadau hefyd faterion yn ymwneud â gweithredu – gydag awgrymiadau penodol ynghylch cyfathrebu, arweiniad a gwaith i'w wneud i baratoi ar gyfer gweithredu. Galwyd ar Lywodraeth Cymru i rannu gwybodaeth ar ba bryd y byddai'r rheoliadau drafft yn dod i rym cyn gynted ag y bo modd. Fel y dywedodd Y Gymdeithas Fasnach Gwin a Gwirodydd (WSTA) (#43): *“Byddai'n ddefnyddiol i'r diwydiant a llawer o'n haelodau pe bai modd rhoi gwybod i ni cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib pryd y bydd y rheoliadau yma'n dod i rym. Bydd yn caniatáu i'n haelodau gael amser i baratoi ar gyfer unrhyw newidiadau sy'n rhaid iddyn nhw eu gwneud.”*

Gwnaeth nifer o ymatebion sylwadau ar yr amser arweiniol ar gyfer isafbris uned a phwysigrwydd caniatáu digon o amser i'r rhai yr effeithir arnynt gan y ddeddfwriaeth i baratoi ar gyfer ei gweithredu. Galwyd am gyfnod hwy o amser arwain (rhwng pan fydd y rheoliadau sy'n pennu lefel yr isafbris uned yn cael eu cymeradwyo a phan fydd yr isafbris uned yn dod i rym) nag a gafwyd yn yr Alban. Gwnaeth sawl ymateb sylwadau hefyd ar gynlluniau ar gyfer gorfodi'r ddeddfwriaeth a'r angen i weithgarwch arolygu a gorfodi gael adnoddau priodol.

### Adnoddau i gefnogi gweithredu – gorfodi ac arolygu

“...Gan mai awdurdodau lleol fel ni a fydd yn gyfrifol am orfodi'r ddeddfwriaeth, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn annog Llywodraeth Cymru yn gryf i sicrhau bod gan bob awdurdod lleol y capasiti a'r adnoddau i gyflawni'r ddyletswydd hon ac nad yw'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn mynd yn faich ychwanegol.” **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (#100). Gweler hefyd: Tîm Iechyd Cyhoeddus Aneurin Bevan Gwent (#109).**

“...Rydym yn croesawu cyflwyno isafbris i fynd i'r afael â'r effeithiau ar iechyd, gwasanaethau, troseddau ac anhrefn sy'n deillio o lefelau gormodol o ddefnydd alcohol. Rydym yn nodi bod rhywfaint o gyllid wedi'i ddarparu i gynorthwyo Swyddogion Gorfodi awdurdodau lleol i sicrhau bod perchnogion siopau yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Rydym yn pryderu bod lefel y cyllid yn rhy isel ac nad yw'n cynnwys darpariaeth ar gyfer cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau eraill a allai gael eu heffeithio, yn enwedig yn y tymor byr.” **Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (#123)**

## **Amser i baratoi ar gyfer gweithredu**

**Pernod Ricard UK (#125):** “Cyhoeddwyd lefel y pris a gafodd ei ffafrio gan Lywodraeth yr Alban ar 1 Mawrth 2018, pasiwyd y ddeddf ar 25 Ebrill, a chyflwynwyd y pris ar 1 Mai. Roedd yr amserlen fer hon yn heriol i lawer o fanwerthwyr. Er enghraifft, fe glywsom am rai manwerthwyr yn gorfod newid prisiau stoc a oedd wedi'i phrisio eisoes er mwyn sicrhau ei bod wedi'i chlirio oddi ar eu silffoedd erbyn 1 Mai. Felly, byddai'r diwydiant yn croesawu cyfnod cyflwyno hirach yng Nghymru.”

**Cymdeithas Siopau Cyfleustra (#126):** “Bydd gan y broses o gyflwyno isafbris uned oblygiadau ar gyfer newidiadau i systemau prisio, hyfforddiant staff, newid bargeinion presennol, a defnyddio talebau. Bydd y broses o gyflwyno'r newidiadau hyn yn effeithio mewn ffyrdd gwahanol ar fanwerthwyr gwahanol gan ddibynnu ar eu modelau busnes. Bydd y broses o gyflwyno newidiadau i brisiau a bargeinion yn haws i fanwerthwyr lluosog sydd â systemau gweinyddiaeth canolog, gan fod y strwythur ar waith eisoes. Fodd bynnag, byddant yn ysgwyddo costau o safbwynt newid prisiau, a bydd angen gwneud penderfyniadau ynglŷn ag ystod alcohol yn gyflym. Yn yr un modd, bydd angen i siopau cyfleustra annibynnol fuddsoddi mewn staff ac amser gweinyddol ychwanegol i newid prisiau a sicrhau cydymffurfiaeth, a nodir hyn yn y Datganiad Effaith Reoleiddiol. Felly, rydym yn croesawu'r ffaith fod Llywodraeth Cymru eisoes yn ymgysylltu â manwerthwyr ar y broses o gyflwyno isafbris uned yng Nghymru, ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried y profiad o gyflwyno isafbris uned yn yr Alban er mwyn sicrhau cyfnod pontio didrafferth i fanwerthwyr yng Nghymru.”

Dywedodd y **Gymdeithas Siopau Cyfleustra (#126)** hefyd: “Rydym yn croesawu'r ffaith fod Llywodraeth Cymru eisoes yn ymgynghori ar lefel yr isafbris uned yng Nghymru ac yn ymgysylltu â manwerthwyr cyn cyflwyno isafbris uned yn ystod haf 2019. Bydd hyn yn sicrhau bod gan fanwerthwyr ddigon o amser i baratoi eu busnesau cyn i'r rheoliadau ddod i rym. Pan gyflwynwyd isafbris uned yn yr Alban, roedd gan fanwerthwyr lai na phedwar mis i baratoi rhwng cadarnhau lefel yr isafbris uned a'i gyflwyno. Oherwydd yr amserlen fer hon, roedd y broses o baratoi ar gyfer y rheoliadau yn heriol i fanwerthwyr.”

## **Adolygu lefel yr isafbris uned**

Er bod yr ymgynghoriad yn canolbwyntio'n benodol ar lefel yr isafbris uned i'w bennu yn y rheoliadau, gwnaeth yr ymatebion sylwadau ar gynlluniau ar gyfer monitro canlyniadau ac adolygu'r lefel hefyd. I rai, er bod cefnogaeth ar gyfer isafbris uned o 50c, awgrymwyd y dylid adolygu'r lefel yn barhaus i sicrhau ei bod yn sicrhau'r manteision iechyd disgwylidig. Dywedodd nifer o ymatebion gan y GIG, rhanddeiliaid iechyd y cyhoedd, Byrddau Cynllunio

Ardal a sefydliadau'r sector cyhoeddus y dylai'r isafbris uned gael ei adolygu'n rheolaidd ac y dylai gynyddu'n unol â chwyddiant. Awgrymodd rhai ymatebion y dylid adolygu lefel yr isafbris uned bob blwyddyn ac y dylai gynyddu'n unol â chwyddiant, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn effeithiol dros amser. Roedd ymatebion eraill yn croesawu'r adolygiad mewnol y bwriedir ei gynnal gan Lywodraeth Cymru ar ôl dwy flynedd o weithredu, tra bod rhai'n crybwyll yr angen am adolygiad ar ôl tair blynedd. Mewn cyferbyniad, galwodd nifer o ymatebion gan fanwerthwyr a'r diwydiant alcohol am i lefel yr isafbris uned barhau'n 50c am bum mlynedd.

Gwnaeth nifer o ymatebion sylwadau hefyd ar y ffaith nad yw cynlluniau Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru ar gyfer adolygu lefel yr isafbris uned a'r amserlenni cysylltiedig yn cyd-fynd â'i gilydd ar hyn o bryd, ac y gallai hynny achosi problemau.

### **Adolygu lefel yr isafbris uned**

"...Felly, dylid cydnabod bod angen gosod isafbris uned ar lefel gymesur, ond ei bod yn debygol y bydd effeithiolrwydd isafbris uned o 50c wedi lleihau ers 2013, a'i bod yn debygol o leihau ymhellach erbyn amser gwerthuso'r mesur tua 5 mlynedd ar ôl ei gyflwyno. Pa bynnag trothwy sy'n cael ei bennu gan Lywodraeth Cymru, mae'n rhaid i'r gwerthusiad hwn (ac unrhyw adolygiadau interim) gynnwys asesiad o effaith chwyddiant ar effeithiolrwydd y mesur." **Alcohol Change UK (#91)**

"...mae'n bwysig bod modd adolygu lefel yr isafbris uned yn rheolaidd a sicrhau ei bod yn codi yn unol â chwyddiant er mwyn sicrhau ei bod yn effeithiol o hyd." **Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd (#108)**

"...Bydd yn bwysig adolygu'r sefyllfa yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y pris yn gyfoes ac yn adlewyrchu'r farchnad ar ôl ystyried chwyddiant ac ati. Hefyd, bydd angen sicrhau bod y canlyniadau a amlinellir yn y cynnig yn arwain at y manteision y mae'r rheoliadau yn ceisio eu sicrhau." **Bwrdd Cynllunio Ardal Powys (#137)**

"...Oherwydd chwyddiant, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu terfyn yr isafbris uned yn rheolaidd, a'i gynyddu os oes angen. Mae'n hollbwysig bod Llywodraeth Cymru yn cydweithio â llywodraethau eraill yn y DU cyn gosod terfyn isafbris uned er mwyn lleihau problemau trawsffiniol posibl a dryswch ar gyfer defnyddwyr." **Cancer Research UK (#132)**

"...Mae'r grŵp yn credu bod 50c yr uned yn isafbris rhesymol, gan fod y sylfaen dystiolaeth yn dangos bod y lefel hon yn debygol o gael effaith sylweddol ar yfed peryglus a niweidiol. Fodd bynnag, rydym yn argymhell bod angen monitro'r model a gyflwynwyd yn yr Alban yn ofalus cyn gweithredu, er mwyn pwysu a mesur effaith y model hwnnw cyn gwneud penderfyniad terfynol. Hefyd, hoffem weld y pris yn cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn briodol." **Grŵp Alcohol Bwrdd Cynllunio Ardal Caerdydd a'r**

## Fro (#112)

“...Mae'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad mewnol o'r isafbris uned ddwy flynedd ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym.” **Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ym Mro Morgannwg (#111)**

“...Mae astudiaeth Prifysgol Sheffield yn darogan y bydd manteision iechyd yn cynyddu yn sgil pris uwch, ac y gall fod yn ddymunol codi'r isafbris uned yn y dyfodol i sicrhau rhagor o fanteision iechyd. Fodd bynnag, mae'n ddoeth sefydlu egwyddor isafbris uned yn gyntaf ac ystyried effeithiau'r isafbris uned sydd wedi'i osod ar lefel gymedrol o 50c er mwyn osgoi unrhyw ganlyniadau annisgwyl eithafol. Felly, mae Penaethiaid Safonau Masnach Cymru yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i adolygu lefel yr isafbris uned ar ôl 2 flynedd ac ar ddiwedd cyfnod pum mlynedd, ac i gyflwyno adroddiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn ymwneud â gweithredu ac effaith y Ddeddf yn ystod y cyfnod hwn, a chyhoeddi'r adroddiad. Bydd hyn yn sicrhau bod canlyniadau'r isafbris uned yn cael eu deall yn llawn cyn bod yr isafbris yn parhau neu'n cynyddu.” **Penaethiaid Safonau Masnach Cymru (#122)**

“...Rydym yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad ar ôl y ddwy flynedd gyntaf er mwyn archwilio effaith y ddeddfwriaeth ar gyflawni'r amcanion dymunol. Hefyd, dylai'r adolygiad hwn ystyried datblygiadau'r dyfodol o safbwynt gwybodaeth a dealltwriaeth; cyngor arbenigol a chyhoeddiadau allanol yn ymwneud â'r mater hwn.” **Plant yng Nghymru (#119)**

“...Rydym yn derbyn bod y lefel arfaethedig o 50c yn briodol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, credwn fod angen ail-werthuso lefel yr isafbris uned yn rheolaidd a chyflwyno gweithdrefnau i gynyddu'r isafbris a sicrhau y bydd yn parhau i fod yn effeithiol dros amser...Oherwydd chwyddiant a thwf incwm, bydd effaith isafbris uned o 50c yn lleihau dros amser, ac yn wir, mae eisoes wedi lleihau ers i Lywodraeth Cymru ddatgan ei chefnogaeth i isafbris uned o 50c yn 2013...Mewn llawer o wledydd, mae effeithiolrwydd treth ar alcohol o safbwynt lleihau niwed wedi'i danseilio oherwydd methiant y gwledydd hynny i ystyried chwyddiant a thwf incwm - mae'n hanfodol bwysig nad yw'r un peth yn digwydd gyda'r isafbris uned yng Nghymru. Felly, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gweithdrefnau i sicrhau bod lefel yr isafbris uned yn cael ei hadolygu a'i haddasu'n rheolaidd i sicrhau bod y lefel yn effeithiol o hyd.” **Alcohol Health Alliance UK (#138)**

“...Mae Tîm Iechyd Cyhoeddus Aneurin Bevan Gwent yn argymhell bod angen adolygu'r lefel hon yn rheolaidd – o leiaf bob 3 blynedd. Roedd Tîm Iechyd Cyhoeddus Aneurin Bevan Gwent wedi argymhell bod angen ailystyried y lefel ar ôl pwyso a mesur y cynnydd mewn chwyddiant, effaith cyflwyno isafbris uned ac unrhyw dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o bob rhan o'r DU.” **Tîm Iechyd Cyhoeddus Aneurin Bevan Gwent (#109)**

“...mae'n ddoeth sefydlu egwyddor isafbris uned yn gyntaf ac ystyried effeithiau'r isafbris uned sydd wedi'i osod ar lefel gymedrol o 50c er mwyn osgoi unrhyw ganlyniadau

annisgwyl eithafol. Felly, mae Cyngor Sir Ceredigion yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i adolygu lefel yr isafbris uned ar ôl 2 flynedd ac ar ddiwedd cyfnod pum mlynedd, ac i gyflwyno adroddiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn ymwneud â gweithredu ac effaith y Ddeddf yn ystod y cyfnod hwn, a chyhoeddi'r adroddiad. Bydd hyn yn sicrhau bod canlyniadau'r isafbris uned yn cael eu deall yn llawn cyn bod yr isafbris yn parhau neu'n cynyddu." **Cyngor Sir Ceredigion (#141)**

"...Dylai'r pris sy'n cael ei osod aros yn sefydlog gydol y cyfnod pum mlynedd er mwyn caniatáu gwerthusiad ystyrion o'r effeithiau." **Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain (#121)**

"...Er mwyn caniatáu gwerthusiad ystyrion o'r effeithiau a'r canlyniadau anfwriadol, ni ddylid cynyddu'r isafbris uned y cytunwyd arno yng Nghymru gydol y cyfnod pum mlynedd. Ar ddiwedd cyfnod pum mlynedd, dylai'r adroddiad a gyhoeddwyd ar 'weithredu ac effaith y Ddeddf yn ystod y cyfnod hwn' gynnwys gwerthusiad llawn ac annibynnol o Isafbris Uned yng Nghymru." **Molson Coors UK and Ireland (#129)**

### **Cwestiwn 3:**

**Hoffem wybod beth yw eich barn ar effeithiau'r cynigion hyn ar yr iaith Gymraeg, yn benodol mewn perthynas â chyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg. Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?**

Ni ddarparodd dros 40 o ymatebion i'r ymgynghoriad unrhyw ymateb i'r cwestiwn ymgynghori hwn. Yn ychwanegol, dywedodd dros 40 o ymatebion na fyddai'r isafbris uned yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg. Yn benodol, cwestiynodd 30 o ymatebion a atebodd y cwestiwn ymgynghori hwn sut y byddai'r isafbris uned yn effeithio ar y Gymraeg a/neu wedi holi a oedd y cwestiwn hwn yn berthnasol i'r ymgynghoriad. Fodd bynnag, dywedodd nifer lai o ymatebion, er nad oedd ganddynt unrhyw farn benodol ar effeithiau'r cynnig ar y Gymraeg, eu bod yn croesawu'r ffaith ei fod yn cael ei ystyried. Dywedodd nifer fach o ymatebion y byddai effaith isafbris uned yn niwtral.

Nododd ymatebion eraill effeithiau posibl isafbris uned ar y Gymraeg. Er enghraifft, tynnodd nifer fechan o ymatebwyr sylw at effeithiau negyddol posibl ar dafarndai gwledig mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith. Gwnaed sylwadau penodol hefyd mewn perthynas â'r isafbris uned a diwylliant ehangach yng Nghymru a diogelu iechyd y genedl. Nododd nifer fechan o ymatebion hefyd y gallai isafbris uned gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg pe bai mwy o bobl yn dechrau mynd i'r dafarn (er enghraifft – mewn ymateb i bris alcohol yn cynyddu mewn archfarchnadoedd). Nododd un ymateb bod y cyflenwad parod o alcohol rhad mewn archfarchnadoedd yn annog pobl i yfed yn y cartref, yn hytrach nag yfed yn y dafarn. Gallai

cyflwyno isafbris uned olygu bod mwy o bobl yn mynd i'r dafarn, a allai yn ei dro gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

Yn fwy cyffredinol – roedd ymatebion yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu a deunyddiau ategol dwyieithog ar isafbris uned, yn ogystal â chanllawiau dwyieithog ar gyfer manwerthwyr ac awdurdodau lleol.

### **Effeithiau isafbris uned ar y Gymraeg**

“...Nid ydym wedi nodi unrhyw effaith negyddol y gallai'r polisi hwn ei chael ar y Gymraeg, o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Bydd angen cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol er mwyn cyfathrebu'r newidiadau deddfwriaethol, a dylid gosod disgwyliadau ar fusnesau a gwasanaethau darparwyr y sector preifat sy'n gweithredu yng Nghymru i roi sylw dyledus i'r gofynion am ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg.” **Plant yng Nghymru (#119)**

“...Ni fydd yn cael effaith ar y Gymraeg, ond efallai y bydd yn arwain at agweddau negyddol tuag at Lywodraeth Cymru a Chymru'n gyffredinol. I'r gwrthwyneb, gall yr effaith fod yn un gadarnhaol.” **Ymateb unigol (#86)**

“...Yn ddiwylliannol, rwy'n gweld hyn yn agwedd gyfrifol ar bolisiau iechyd cyhoeddus Cymru. Ddegawdau nôl, roedd Cymru'n wlad a oedd yn “Sych ar y Sul”. Er nad oedd pawb yn croesawu hynny, roedd hyn gwneud Cymru'n wahanol, yn wlad a oedd yn ceisio diogelu iechyd, llesiant a chydlyniant cymdeithasol ei phoblogaeth. Rwy'n credu y bydd cyflwyno isafbris yn diffinio'r uchelgais hwn eto.” **CAIS (#12)**

“Mae pobl mewn ardaloedd gwledig yn siarad Cymraeg. Bydd codi pris alcohol yn gwneud i'r Cymry Cymraeg symud i ffwrdd. Sy'n arwain at ddirywiad yn yr economi leol!” **Ymateb unigol (#50)**

### **Cefnogaeth i ddeunyddiau a chyfathrebu dwyieithog**

“...Mae angen gwneud gwaith i godi ymwybyddiaeth am y polisi isafbris uned yng Nghymru, o ran ymarferoldeb ei roi ar waith a'i bwrpas cyffredinol, ac mae'n rhaid iddo ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg a Saesneg... Mae'n bwysig bod manwerthwyr a defnyddwyr yn gwybod am gyflwyniad yr isafbris uned a pham y bydd pris rhai diodydd yn codi.” **Alcohol Change UK (#91)**



## Cwestiwn 4:

Hefyd eglurwch, yn eich barn chi, sut y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn:

- i) cael effaith gadarnhaol neu fwy o effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg
- ii) peidio â chael effaith negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

Ni ddarparodd dros 65 o ymatebion unrhyw ymateb i'r cwestiwn ymgynghori hwn. Fel gyda Cwestiwn 3, cwestiynodd rhai ymatebwyr pa mor berthnasol oedd y cwestiwn hwn i ymgynghoriad ar isafswm prisio uned. Nododd nifer fach o ymatebion nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau penodol ar sut y gallai'r polisi gael ei newid i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Tynnodd eraill sylw at bwytiau tebyg i'r rhai a godwyd mewn perthynas â chwestiwn 3, gyda ffocws penodol ar bwysigrwydd cyfathrebu a deunyddiau ategol dwyieithog a slogan Cymraeg i gynrychioli'r polisi. Fel y dywedodd un ymatebydd: *“Mae'n hanfodol ein bod yn datblygu geirfa am isafbris sy'n ddealladwy a hygyrch yn y Gymraeg”* (CAIS – #12).

## Cwestiwn 5:

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:**

Ni wnaeth dros 70 o ymatebion gynnwys ymateb penodol i'r cwestiwn ymgynghori hwn. O'r rhai a wnaeth sylwadau, roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth a ddarparwyd yn ymwneud â'r egwyddor o isafbris uned a phryderon neu ystyriaethau penodol ynghylch cyflwyno isafbris ar gyfer alcohol (sydd wedi'u hamlygu yn yr adrannau blaenorol). I grynhoi, crybwyllodd y rhai a ymatebodd i gwestiwn 5 effeithiau posibl isafbris uned ar aelwydydd incwm isel / defnydd o gyffuriau a newid / yfwyr dibynnol, a holwyd a fyddai'r isafbris uned yn gweithio mewn gwirionedd. Soniodd eraill am y cynnydd posibl yn y galw am wasanaeth camddefnyddio sylweddau a phwysigrwydd ariannu gwasanaethau triniaeth law yn llaw ag isafbris uned. Gwnaed sylwadau hefyd mewn perthynas â'r cynnydd mewn refeniw ar gyfer manwerthwyr (yn ogystal â'r gamargraff bod yr isafbris uned yn dreth). Mynegwyd pryderon penodol y byddai isafbris uned yn effeithio ar yfwyr cyfrifol; bod angen mathau eraill o ymyriad i fynd i'r afael ag yfed peryglus a niweidiol; a galwyd am ymgyrch iechyd y cyhoedd ehangach ynghylch effeithiau yfed gormod o alcohol. Dywedodd nifer o ymatebion y

byddai'r isafbris uned yn effeithio'n andwyol ar fanwerthwyr a chrybwyllwyd problemau'n ymwneud â gwerthiannau trawsffiniol hefyd.

Roedd un o'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion i gwestiwn ymgynghori 5 yn ymwneud â chanllawiau ar isafbris uned. Gwnaeth nifer o ymatebion sylwadau penodol mewn perthynas â chanllawiau a deunyddiau cyfathrebu Llywodraeth Cymru. I'r rhai sy'n cefnogi isafbris uned, gwnaed sylwadau hefyd mewn perthynas â bod angen amser i baratoi ar gyfer gweithredu a phwysigrwydd adolygu'r lefel, fel y nodwyd yn gynharach yn y ddogfen hon.

### **Canllawiau a Deunyddiau Cyfathrebu ar yr isafbris uned**

Codwyd materion penodol mewn perthynas â chanllawiau a chyfrifoldebau Awdurdodau Lleol. Fel y dywedodd **Adran Diogelu'r Cyhoedd Sir Fynwy (#55)**: “Yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol mae llwyddiant gorfodi isafbris yn cael ei gymharu â llwyddiant deddfwriaeth bagiau siopa sy'n isel iawn. Mae deddfwriaeth bagiau siopa wedi rheoleiddio ei hun i raddau helaeth ond efallai na fydd hyn yn wir gydag isafbris gan nad yw mor amlwg i'r cyhoedd. Rydym yn gofyn i'r canllawiau arfaethedig nodi'n glir bod disgwyl i awdurdodau lleol gymryd camau gweithredu. Mae'r Asesiad yn datgan y bydd yr isafbris yn berthnasol i safleoedd cymwys yng Nghymru sy'n gweithredu gwasanaeth darparu alcohol ar-lein neu dros y ffôn wrth gyflenwi i berson yng Nghymru. Ni fydd isafbris yn weithredol yn Lloegr ac fel awdurdod ffiniol, credwn y bydd yna broblemau gyda gwerthu a symud alcohol rhatach dros y ffin, yn enwedig ar ôl dileu tollau'r bont.”

Dywedodd **CBS Caerffili (#124)**: “Mae cyfathrebu a chanllawiau effeithiol i fanwerthwyr alcohol yn allweddol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r deddfwriaeth arfaethedig. Cyhoedduswyd ymlaen llaw, canllawiau mewn fformat hawdd i'w ddeall, ieithoedd gofynnol gydag enghreifftiau yn enwedig ar gyfer y manwerthwyr annibynnol bach.”

Dywedodd y **Gymdeithas Siopau Cyfleustra (#126)**: “Byddem hefyd yn hoffi cael esboniad o sut mae isafbris uned yn mynd i effeithio ar alcohol sy'n cael ei werthu mewn hyrwyddiadau cysylltiedig fel gwin mewn cynnig pryd min nos, ac a fydd isafbris uned yn effeithio ar y defnydd o dalebau arian i ffwrdd ar gyfer prynu nifer o bethau yn cynnwys alcohol. Er enghraifft, pe bai gan gwsmer daleb i gael £5 o ostyngiad mewn siop ac yn ei ddefnyddio i brynu basged o nwyddau a fyddai'n cynnwys alcohol? Gobeithio bod canllawiau Llywodraeth Cymru yn rhoi sylw i hyn. Dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth hefyd i'r canllawiau a roddwyd ar hyrwyddiadau cysylltiedig yng nghanllawiau Llywodraeth yr Alban i sicrhau eu bod yn gyson.”

Galwyd hefyd am ymgyrchoedd ar yr isafbris uned sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr: “Credwn ei bod hi'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru'n datblygu ac yn gweithredu ymgyrch sy'n canolbwyntio ar y defnyddwyr i egluro goblygiadau isafswm uned i gwsmeriaid a'u helpu i ddeall yn well pam y bydd prisiau alcohol yn cael eu heffeithio. Bydd unrhyw rwystredigaeth sy'n deillio o ddiffyg ymwybyddiaeth gan gwsmeriaid yn cael

ei gyfeirio'n anochel at staff siopau – dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod heddluoedd Cymru'n llwyr ymwybodol o'r amserlen weithredu fel y gallant ddarparu cymorth rhagweithiol i staff mewn unrhyw achosion sy'n ymwneud ag isafbris uned.” **Cymdeithas Siopau Cyfleustra (#126)**

## Digwyddiadau a chyfarfodydd ymgysylltu

Yn ystod yr ymgynghoriad 12 wythnos, cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau ymgysylltu gydag amrywiaeth o wahanol randdeiliaid – gweler Tabl 1 isod.

**Tabl 1: Crynodeb o ddigwyddiadau a chyfarfodydd ymgysylltu**

Digwyddiad / Cyfarfod	Dyddiad	Crynodeb o'r safbwyntiau ar lefel arfaethedig yr isafbris uned o 50c
Grŵp Safonau Manwerthu Alcohol, Cymdeithas Fasnach Gwin a Gwirodydd (WSTA):  Mynychwyd gan gynrychiolwyr o WSTA, Partneriaethau Alcohol Cymunedol, Asda, Morrisons, Waitrose, Sainsbury's, Lidl, Home Bargains, Aldi a'r Gymdeithas Siopau Cyfleustra.	10/10/18	Mae'n bwysig cael cysondeb gyda lefel yr isafbris uned yn yr Alban.
Cyfarfod Arweinwyr Rhanbarthol: Byrddau Cynllunio Ardal	16/10/18	Anodd dweud beth ddylai lefel yr isafbris uned fod pan nad yw'r ddeddfwriaeth wedi'i gweithredu eto. Byrddau Cynllunio Ardal i ymateb i'r ymgynghoriad yn unigol.
Alcohol Change UK	18/10/18	Cefnogi egwyddor isafbris uned.
Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain	18/10/18	Ymateb ysgrifenedig wedi'i dderbyn.

Cyfarfod Cenedlaethol Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru	19/10/18	Anogwyd cyfarwyddwyr i ymateb i'r ymgynghoriad.
Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd	06/11/18	Anogwyd yr Aelodau i ymateb i'r ymgynghoriad. Ymateb ysgrifenedig wedi'i dderbyn.
Cynhadledd Flynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru	08/11/18 a 09/11/18	Ymgysylltu â thros 120 o gynadleddwyr i annog sefydliadau ac unigolion i ymateb i'r ymgynghoriad. Cefnogaeth eang i isafbris uned, ond mynegwyd pryderon ynghylch effeithiau cyflwyno isafbris uned ar y rhai sy'n byw mewn tloidi a'r "elw" o'r isafbris uned yn mynd i fanwerthwyr.
Bwrdd Partneriaeth Camddefnyddio Sylweddau	21/11/18	Anogwyd yr aelodau i ymateb i'r ymgynghoriad.
Plant yng Nghymru	22/11/18	Cefnogi isafbris uned o 50c.
Swyddfa'r Comisiynydd Plant	28/11/18	Cefnogi egwyddor isafbris uned.
Cyfarfod Arweinwyr Alcohol Iechyd Cyhoeddus Cymru	27/11/18	Cefnogi egwyddor isafbris uned. Health Mae Byrddau Iechyd wedi ymateb yn unigol.
Penaethiaid Safonau Masnach Cymru	30/11/18	Cefnogi isafbris uned o 50c. Ymateb ysgrifenedig wedi'i dderbyn.
Rhwydwaith Camddefnyddio Sylweddau'r Trydydd Sector	05/12/18	Anogwyd yr aelodau i ymateb i'r ymgynghoriad.
Rhwydwaith Diwydiant Alcohol Llywodraeth Cymru	05/12/18	Anogwyd yr aelodau i ymateb i'r ymgynghoriad.
Cynhadledd Genedlaethol	11/12/12	Cefnogi isafbris uned o 50c. Ond mynegwyd pryderon ynghylch yr

Penaethiaid Safonau Masnach		effeithiau posibl ar werthu alcohol anghyfreithlon, smyglo a gwerthiant trawsffiniol.
<b>BYRDDAU CYNLLUNIO ARDAL:</b>		
Bwrdd Cynllunio Ardal Cwm Taf	08/11/18	Cefnogi isafbris uned o 50c. Ymateb ysgrifenedig wedi'i dderbyn.
Bwrdd Cynllunio Ardal Dyfed	04/12/18	Cefnogi egwyddor isafbris uned – ond problemau wedi'u crybwyll e.e. siopa trawsffiniol / effeithiau ar yfwyr dibynnol / effeithiau ar aelwydydd mewn tlodi.
Bwrdd Cynllunio Ardal Caerdydd a'r Fro	05/12/18	Cefnogi isafbris uned o 50c. Ymateb ysgrifenedig wedi'i dderbyn.
Bwrdd Cynllunio Ardal Gwent	12/12/18	Cefnogi isafbris uned o 50c. Ymateb ysgrifenedig wedi'i dderbyn.
Bwrdd Cynllunio Ardal Bae'r Gorllewin	13/12/18	Cefnogi egwyddor isafbris uned – ond problemau wedi'u crybwyll e.e. siopa trawsffiniol / effeithiau ar yfwyr dibynnol / effeithiau ar aelwydydd mewn tlodi / effaith bosibl ar wasanaethau.
Bwrdd Cynllunio Ardal Powys	12/12/18	Cefnogi isafbris uned o 50c. Ymateb ysgrifenedig wedi'i dderbyn.
Bwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru	14/12/18	Cefnogi egwyddor isafbris uned – ond problemau wedi'u crybwyll e.e. siopa trawsffiniol / effeithiau ar yfwyr dibynnol / effeithiau ar aelwydydd mewn tlodi (yn enwedig yng ngoleuni cyflwyno'r credyd cynhwysol). Ymateb ysgrifenedig wedi'i dderbyn.
<b>Defnyddwyr Gwasanaethau</b>		
Fforwm Defnyddwyr Gwasanaeth Caerdydd a'r Fro	16/11/18	Mynegwyd pryderon ynghylch yr effeithiau ar yfwyr dibynnol, teuluoedd sy'n byw mewn tlodi, y risgiau o newid (o alcohol i sylweddau eraill) a'r cynnydd posibl yn nifer y bobl sy'n gofyn am gymorth gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau.

Fforwm Defnyddwyr Rhondda Cynon Taf a Merthyr	12/12/18	Nid oedd mwyafrif yr aelodau yn cefnogi'r isafbris uned. Mynegwyd pryderon ynghylch yr effeithiau ar yfwyr dibynnol, teuluoedd sy'n byw mewn tlodi, y risgiau o newid a'r cynnydd posibl yn nifer y bobl sy'n gofyn am gymorth gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau. Galwyd am fwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau cymorth triniaeth a lleihau niwed.
Fforwm Defnyddwyr Gwent	13/12/18	Roedd rhai aelodau'n cefnogi'r isafbris uned ond ar y cyfan, nid oeddent yn ei gefnogi. Mynegwyd pryderon am y risg o newid o alcohol i sylweddau eraill a'r potensial o gynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Galwyd am wneud mwy o ran labelu alcohol, mewn modd tebyg i sigarêts.
<b>Gweithdai gyda phobl ifanc</b>		
Gweithdy gyda phobl ifanc, y Gogledd	Mis Tachwedd	Cyflwynwyd pwyntiau pwysig o'r trafodaethau i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r ymgynghoriad. Roeddent yn cynnwys:  Cefnogaeth i'r isafbris uned o 50c gan y bydd yn helpu i ostwng costau iechyd a gallai atal pobl rhag yfed. Cydnabyddiaeth bod yr isafbris uned yn fwy tebygol o effeithio ar y fewnfasnach, yn hytrach na'r allfasnach.
Gweithdy gyda phobl ifanc, y De	Mis Rhagfyr	Cyflwynwyd pwyntiau pwysig o'r trafodaethau i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r ymgynghoriad. Roeddent yn cynnwys:  Cefnogaeth gyfyngedig ar gyfer cyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol. Yr angen am gamau gweithredu a pholisïau amgen, gan gynnwys ffocws ar addysg, gwell cefnogaeth i bobl sy'n yfed ac edrych ar broblem argaeledd.

**Crynodeb o'r materion a godwyd amlaf yn ystod cyfarfodydd a digwyddiadau gyda rhanddeiliaid:**

- Mae'n bwysig sicrhau bod cysondeb gyda lefel yr isafbris uned sy'n cael ei weithredu yn yr Alban.
- Mae'n bwysig dysgu gwersi o weithredu'r isafbris uned yn yr Alban.
- Mynegwyd pryderon ynglŷn ag effeithiau posibl yr isafbris uned ar y rhai sy'n byw mewn tlodi a'r effaith ar gyllidebau aelwydydd.
- Mynegwyd pryderon mewn perthynas â'r risg o newid o alcohol i gynhyrchion eraill a'r posibilrwydd o gynnydd mewn gwerthu alcohol anghyfreithlon.
- Mynegwyd pryderon ynghylch effeithiau ar yfwyr dibynnol a sut na fyddai isafbris uned yn gwneud gwahaniaeth ac ai fyddai'n lleihau yfed ymhlith y rhai sy'n ddibynnol ar alcohol. Roedd isafbris uned yn cael ei weld fel dull o gosbi oedd â'r nod o gael yr effaith waethaf ar y rhai mwyaf agored i niwed.
- Mynegwyd pryderon ynghylch y potensial o gynnydd yng ngwerthiant alcohol anghyfreithlon.
- Gwnaed sylwadau mewn perthynas â gwerthiannau trawsffiniol a sut y byddai pobl yn teithio i Loegr i brynu alcohol a sut y gallai hyn danseilio nodau'r ddeddfwriaeth o ran iechyd y cyhoedd.
- Mae angen i'r isafbris uned fod yn rhan o ddull ehangach o fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau a lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae dulliau eraill y gellid eu defnyddio, gan gynnwys mynd i'r afael â'r cyflenwad, gwell labelu, atal ac ymyrryd yn gynnar, a gwell addysg a chefnogaeth i bobl ifanc.
- Posibilrwydd o gynnydd yn nifer y bobl sy'n gofyn am gymorth yn dilyn cyflwyno isafbris uned. Mae angen adnoddau ar wasanaethau camddefnyddio sylweddau i ymdopi â'r cynnydd posibl hwn yn y galw.

## **Datganiad camau nesaf**

Mae Llywodraeth Cymru yn dal i fod o'r farn y dylai lefel yr isafbris uned a bennir mewn rheoliadau, at ddibenion Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, fod yn 50c. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod rheoliadau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nes ymlaen yn 2019, yn pennu'r lefel hon, iddo eu hystyried. Bydd cynlluniau ar gyfer gweithredu'n parhau.

Cyn gweithredu, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda manwerthwyr a rhanddeiliaid eraill – i gwblhau'r canllawiau, y dogfennau a'r deunyddiau cyfathrebu ategol er mwyn helpu pobl i baratoi. Byddwn yn parhau i weithio'n agos hefyd gydag awdurdodau lleol a Phenaethiaid Safonau Masnach Cymru ar gynlluniau ar gyfer arolygu a gorfodi'r ddeddfwriaeth. Fel yr amlygwyd yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y rheoliadau drafft, dyrannwyd cyllideb o £300,000 at y dibenion hyn dros dair blynedd.

Byddwn yn rhoi cynlluniau ar waith i werthuso'r ddeddfwriaeth hefyd, sy'n cael eu comisiynu ar hyn o bryd. Fel yr amlygwyd yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y rheoliadau drafft, dyrannwyd cyllideb o £350,000 at y diben hwn dros bum mlynedd.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd parhau i rannu a rhoi cyhoeddusrwydd i nodau iechyd cyhoeddus y ddeddfwriaeth hefyd – ac yn bwriadu datblygu deunydd cyfathrebu pellach ar sail resymegol y polisi sy'n sail i'r isafbris uned a'i nod i leihau yfed peryglus a niweidiol. Fel y nodwyd yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y rheoliadau drafft, mae cyllideb o £100,000 wedi'i ddyrannu at y diben hwn.

Gwnaeth llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad sylwadau ar yr egwyddor o isafbris a chrybwyll pryderon a phroblemau hefyd yn ymwneud â chanlyniadau anfwriadol posibl o gyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol, ac rydym wedi'u nodi. Roedd y pryderon hyn yn canolbwyntio'n benodol ar effeithiau posibl ar grwpiau agored i niwed, cyllidebau aelwydydd, y risg o newid a'r cynnydd posibl yn nifer y bobl sy'n gofyn am gymorth gan wasanaethau. Byddwn yn parhau i ystyried y problemau posibl hyn – ac rydym wedi comisiynu gwaith ymchwil i edrych ar y risg o newid, a fydd yn cyflwyno adroddiad cyn mynd ati i weithredu. Ar ben hynny, ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddwyd £2.4 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer y 2019/20 ar gyfer y saith Bwrdd Cynllunio Ardal sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau rheng flaen lleol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud erioed bod isafbris yn rhan o strategaeth a dull ehangach o leihau camddefnyddio sylweddau. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r holl ddulliau sydd ar gael i leihau'r niwed a achosir gan yfed gormod o alcohol, wrth i ni ddatblygu a chyflwyno Cynllun Cyflawni newydd ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau.